

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon  
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Chwefror 11fed 14ddeg 2015  
am 7 - 0 o'r gloch.**

**1. Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

**Presennol** - Cynghorwyr G Moore (Cadeirydd), Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Ann Roberts, Alan Owen, Alwyn Rowlands, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).

**2. Ymddiheuriadau:-**

Cyng. Wyn Hughes, Carwyn Jones a Delyth Jones.

**3. Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14ddeg o Ionawr fel rhai cywir gan Cyng. M Ellis, eiliwyd gan Cyng. K Williams.

Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn syth i bwynt 12

**4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

- Hwb Cymunedol - Iolfeydd Llanddona a Llangoed wedi eu huwchraddio a Neuadd Llanddona wedi cael dodrefn newydd. Cyng. G Moore yn adrodd - Pwyllgor y Neuadd y Pentre' i gyflwyno pris am osod WiFi ac anfon ymlaen i swyddog y Cyngor Sir.
- Gôr yrru yn y pentre' - dim newyddion ymhellach
- Arolwg Ysgol - gwaith wedi ei orffen, dim newyddion ymhellach

**5. Datgan Diddordeb**

- Cyng. G Moore a A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
- Cyng. L Davies ar gais 35C196D.
- Cyng. M Ellis ar drafodaeth Grŵp Cymunedol Llangoed

**6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**

- 35C165A - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Pentir, Caim, Llangoed - dim gwrthwynebiad.

**Er Gwybodaeth**

- 35C196D - Cais llawn ar gyfer dymchwel y sied bresennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn Hen Efail, Glanrafon - wedi ei caniatáu
- 35C100F/SCR - Barn sgrinio ar gyfer codi annedd ar dir ger Bwthyn Glandwr, Llangoed - nid oes angen asesiad.

**7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**

7.10 Arwydd - wedi ei osod ar ben lôn Wern, rhybudd lôn yn beryglus

7.11 Clawdd ar dop allt Mariandyrus wedi cael ei dorri gan Cyfoeth Naturiol Cymru

7.12 Wedi casglu bwyd oddi wrth Plant Ysgol Llangoed tuag at y Banc Bwyd ym Miwmares.

7.13 Tyllau ar ffordd mownt Biwmares, nawr wedi ei llenwi.

7.14 Wedi gofyn i'r Cyngor Sir symud y bolardiau llwybr troed yng nghefn Tawelfan.

7.15 Wal Lleiniog - wedi gofyn i'r Cyngor Sir pwy sydd yn gyfrifol o'r wal. Mewn ymateb, y tirlfeddiannwr sydd yn gyfrifol. Felly byddai rhan o'r difrod yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, a rhan arall yn gyfrifoldeb Menter Môn. Am ofyn i'r Cyngor Sir oes bosib gosod arwydd wrth y groesffordd. Clerc i anfon y wybodaeth i Menter Môn.

7.16 Wedi derbyn cwynion am y ddau gartref modur wedi parcio i fyny ar ben Stryd Wexham, sydd yn niwsans i draffig lleol. Am gael gair gyda'r Heddlu.

7.17 Diwrnod agored i'r cyhoedd fory i weld y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Gwynedd, yn swyddfa adran Cynllunio'r Cyngor Sir.

7.18 Llifogydd ar y ffordd ger Hendre Boeth a ger mynedfa i Fferm Fargen Wen - gan fod hyn yn fater hanesyddol, nid yw'r Cyngor Sir yn mynd i wneud dim ar fater.

7.19 Wedi cael cwyn - llwyth o sbwriel wedi ei dympio ar y tir comin, a hefyd peiriannau fferm wedi ei barcio yno ar dir comin ger top Plas Newydd. Mae hwn yn fater hanesyddol ac mae yn beryglus iawn i blant. Penderfynwyd anfon llythyr i'r perchennog er mwyn cael symud y peiriannau a chael dyfynbris ar gyfer cael gwared o'r sbwriel.

- 7.20 Tai Fforddiadwy - wedi derbyn e-bost gan M Sillitoe (Swyddog Cyngor Sir) yn egluro bod Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi tynnu allan o adeiladau'r Tai yn Llangoed oherwydd y costia'u uchel.  
Mae Pennaeth Gwasanaeth Tai Cyngor Sir wedi cytuno i gynnwys y cynllun yn rhaglen datblygu gyda grant Tai Cymdeithasol. Cais wedi mynd i'r Cynulliad i gael ei gymeradwyo. Cymysg o dai sydd yn cael eu cynnig yw 8 tŷ 3 ystafell wely a 2 dy 2 ystafell wely ar "neutral tenure". Mae hyn yn golygu fod daliadaeth yn dibynnu ar y gofyn ond yn debygol o fod i'w rhentu. Cytundeb i adeiladu gyda chwmni Williams, Bala.
- 7.21 Oherwydd newidiadau i gyllideb i Cynghorau gyda stoc tai yn 2015, fydd posib iddynt adeiladau tai a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd.
- 7.22 Drafodwyd toriadau i'r gyllideb gyda phob adran o'r Cyngor Sir, lle bydd rhai adrannau yn gwneud yn well nag eraill. 83 o weithwyr wedi gwneud cais ddiswyddiadau gwirfoddol, lle mae 55 wedi cael eu cymeradwyo.
- 7.23 Fydd penderfyniad yn cael ei wneud gyda Treth y Cyngor 2015/16 mewn pythefnos.

### **8. Neuadd y Pentre'**

Cyfarfod blynyddol wedi ei drefnu ar 14/04/15, lle fydd Derec Williams yn sefyll lawr. Diffyg gwirfoddolwyr ar y pwyllgor.

Gwaith i wneud blwyddyn yma - peintio'r gwaith coed tŷ allan, trwsio ffrâm ffenestr uwchben y drws ffrynt a thrwsio'r ffens. Awgrymwyd i ystyried grant Shell er mwyn trwsio'r ffens.

Merched y Wawr wedi sicrhau grant am 30 o goed coedlan oddi wrth Ymddiriedolaeth Coetir, i gael eu darparu mis Ebrill. Pwyllgor wedi penderfynu peidio â phlannu yng ngardd y Neuadd. Penderfynwyd gwneud y cynnig i'r Ysgol Gynradd.

### **9. Prosiect Afon Lleiniog**

Cyfarfod 10/02/15 – Simon, Ruth, Emlyn, Gareth ar Clerc.

- Trafodwyd rhestr gwaith cynnal a chadw ar gyfer 2015, ac wedi penderfynu defnyddio un contractwr a llynedd.
- Llwybr pren tŷ cefn y Neuadd i gael eu hatgyweirio yn ystod diwrnod gwirfoddoli 19 a 20/02.
- Ystyriaeth i ffensi'r ddol a rhoi anifeiliaid yno i bori, er mwyn cael cadw tyfiant i lawr.
- Mae syniad i osod cownter i fesur faint o bobl sy'n defnyddio llwybrau Lleiniog
- Godwyd cwestiwn ynglŷn â lled y giatiau anabl ar y llwybrau afon Lleiniog. Maent wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer cadair olwyn sydd yn cael ei wthio, dim un modur.

### **10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed**

Cyng. M Ellis yn adrodd:-

- Grŵp cadw Cymru'n daclus yn dod yn ystod gwylia hanner tymor i helpu'r plant adeiladau blychau adar, a'i gosod yn goed maes chwarae plant.
- 12/02/15 – mae rhai o'r plant yn derbyn eu gwobrau
- Diwrnod crempog gyda'r plant 17/02/15
- Hyfforddiant cymorth cyntaf 18/02/15 yn y Neuadd
- Plant hyn yn mynd i gartio 19/02/15
- Wedi llwyddo gyda chais am grant o £2,000 oddiwrth Horizon, tuag at y swing i'r plant.
- Play Rangers yn ystyried clwb ar ôl Ysgol, i ddechrau mis Mawrth a mynd i fynychu unwaith yr wythnos dros y misoedd yr haf.
- Fair Pasg 4/04/15 yn y Neuadd
- Matiau chwarae wedi codi ym maes chwarae plant. Cyng. A Owen i edrych ar y mater.

### **11. Grant Gwella Amgylchedd**

Grant i wella amgylchedd - Clerc i wneud ymholiadau.

### **12. Materion Carthffosiaeth**

Yn bresennol Andrew Wild - Rheolwr Carthffosiaeth, Dwr Cymru.

Eglurodd y cefndir a'r sefyllfa bresennol, bod llawer o dwr hwyneb yn llifo mewn i'r system. Cynhaliwyd ymchwiliad lefel uchel yn 2012 oherwydd y cylch ariannu pum mlynedd sydd gan Dwr Cymru. Mae rownd newydd o ariannu gwerth £30m yn dechrau ym mis Ebrill. Felly'r cam nesaf yw cymryd y cynllun hwn i'r cam dichonolrwydd, lle fydd waith arolwg manwl yn cael ei wneud. Dilyn y cam dichonolrwydd mae gobaith bod y cynllun yn mynd drwy gyfnod cynllunio strategol ac yna ei chymeradwyo.

Bydd ymgynghoriad a pherchnogion tir oherwydd mae angen gymryd y dŵr allan o'r system. Broblem fwyaf yw'r twll archwilio yn faes parcio'r Neuadd a tua 7 neu 8 eiddo sydd gyda falfiau. Hefyd mae pla

gwraidd yn un o'r tyllau archwilio. Maent yn mynd i edrych ar ddatblygiadau yn y dyfodol, yr orsaf bwmpio, profi'r llif a defnyddio teledu cylch cyfyng yn y peipiau.

Codwyd y mater ynghylch carthffosiaeth amrwd yn gorlifo allan o'r "manhole" i mewn i'r afon, lle cafwyd cerrig newydd ar wyneb maes parcio'r Neuadd, lle gosodwyd bagiau tywod fel mesur gofalus. Eglurwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal tua 5 mlynedd yn ôl gyda Dwr Cymru a'r Cyngor Sir, lle nodwyd y byddai gwaith yn cael ei wneud yma. Mae iechyd pobl leol yn cael ei effeithio yn hynod oherwydd ân weithgarwch gan Dwr Cymru.

Cytunwyd iddo adrodd yn ôl ar gynnydd ymhen 3 mis ac anfon unrhyw wybodaeth ymlaen ar e-bost.

### **13. Fynwent y Plwyf**

Clerc yn adrodd fod contract torri'r fynwent wedi dod i ben ac mae angen hysbysebu'r gwaith unwaith eto. Penderfynwyd hysbysebu'r gwaith ar wefan y Cyngor Cymuned, Facebook Cymuned Llangoed ar hysbysfyrddau lleol, a defnyddio cyfeiriad y Cadeirydd i'r ohebiaeth.

### **14. Cyfrifon**

Penderfynwyd talu:-

- JO Williams- gwaith cynnal a chadw - £156.00
- Cyngor Sir Ynys Môn, cost etholiad - £135.00
- Aelodaeth Un Llais 2015/16 - £183.00

### **15. Gohebiaeth**

e-bost – Cyngor Sir, cyfrifoldeb wal ger y ffordd

Llythyr – cynllun datblygu lleol ar y cyd Môn a Gwynedd

Llythyr - Peilonau dros Fôn

Llythyr – Cyngor Sir, Pwyllgor Safonau

### **16. UFA:**

16.1 Damwain mawr ger Bont y Rhyd, cynnwys 4 cerbyd

16.2 Cyng. M Ellis - llysiâu'r dial yn tyfu tŷ cefn i'r ciosg yng Nglanrafon

16.3 Penderfynwyd trafod costau Fynwent y Plwyf yn y cyfarfod nesaf.

16.4 Dim newyddion ymhellach gyda infois Annog Cyf

16.5 Gwaith amddiffyn arfordirol i ddechrau ym Miwmares mis nesaf. Mae'r gwaith mewn dwy ran, diogelu'r arfordir a gwaith ar rai strydoedd.

16.6 Problemau wrth ddod allan o'r maes parcio i'r brif ffordd yn Lleiniog oherwydd bod y gwrych wedi gordyfu.

16.7 Eglwysi lleol wedi trefnu parti gardd ar 18/07/15 yn Eglwys Biwmares

16.8 Cyng. A Roberts yn adrodd - Giât ar dop y steps ar y llwybr ger Eglwys Penmon wedi torri, yn anodd agor.

16.9 Cyflwr gwael ar y ffordd ger Tŷ Gatehouse.

16.10 Angen gwaith ar ffos ger Bay View.

### **17. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.50 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 4/03/2015

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad